GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

TRI CHWARTER BLWYDDYN
Ebrill 2016 – Rhagfyr 2016

Ffigyrau dros dro a ddarperir, ac efallai y bydd mân newidiadau iddynt.

CYNNWYS

	MONITRO GAN GYMHARU AG AMCAN GWELLA 1	**3-7**
	Tanau damweiniol mewn cartrefi	
FRS/RRC/S/002	Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi	
FRS/RRC/S/002	Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi	
	Pobl yn dianc yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi	
	Presenoldeb/absenoldeb larwm mwg mewn tanau mewn cartrefi	
	Archwiliadau diogelwch yn y cartref a gynhaliwyd yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner	
	ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU	**8-15**
	CRYNODEB	**8-9**
FRS/RRC/S/001	Trosolwg o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt	
	TANAU YR AETHPWYD ATYNT	**10-13**
	Yr holl danau – prif, eilaidd a simnai	
	Yr holl danau – bwriadol a damweiniol	
	Tanau mewn eiddo annomestig	
	GALWADAU AM WASANAETHAU ARBENNIG	**14-15**
FRS/RRC/S/001	Galwadau brys am wasanaethau arbennig	
	GALWADAU DIANGEN	**16-17**
	Galwadau diangen maleisus	
	Galwadau diangen oherwydd systemau awtomatig	
	Galwadau diangen didwyll	
	GEIRFA	**18**

AMCAN GWELLA 1:

Atal Marwolaethau ac Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

BLWYDDYN ADRODD 2016-17

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni → = dim newid PC = pwyntiau canrannol

Categori	Blwyddyn	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Hyd yn hyn eleni		Cyfartaledd o'r 3 blynedd diwethaf	
Tanau damweiniol mewn cartrefi	2016-17	102	111	117		330	↑ 12.2%	317.7	↑ 4.0%
	2015-16	106	89	99		294			
Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi	2016-17	4	12	7		23	↓ 19	37.3	↓ 14.3
	2015-16	17	13	12		42			
Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi	2016-17	1	2	0		3	↑ 1		
	2015-16	0	0	2		2			
% y bobl a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi	2016-17	92.8%	86.3%	87.6%		88.7%	↑ 16.1 pc	79.7%	↑ 9.0pc
	2015-16	68.1%	83.6%	66.1%		72.6%			
Tanau mewn cartrefi - larwm mwg wedi gweithredu	2016-17	54.2%	65.9%	64.0%		61.7%	→ 0.3pc	61.8%	→ 0.1pc
	2015-16	62.4%	56.6%	66.7%		62.0%			
Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb weithredu	2016-17	26.2%	24.4%	22.4%		24.2%	→ 1.1pc	23.2%	→ 1.0pc
	2015-16	24.8%	24.2%	20.4%		23.1%			
Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yn bresennol	2016-17	19.6%	9.8%	13.6%		14.1%	→ 0.7pc	15.0%	→ 0.9pc
	2015-16	12.8%	19.2%	13.0%		14.8%			
% yr holl Archwiliadau Diogelwch Tân yn y cartref a gynhaliwyd ar ôl atgyfeiriad gan sefydliad partner	2016-17	30.0%	27.2%	25.1%		27.4%	↓ 4.0pc	33.1%	↓ 5.7pc
	2015-16	35.5%	30.7%	27.4%		31.4%			

* Sylwch fod y canrannau uchod wedi cael eu talgrynnu I'r lle degol agosaf.

Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ac Anafusion yn ôl Difrifoldeb yr Anaf

Bu cynnydd o 12.2% yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi o gymharu â'r un cyfnod yn 2015/16

Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn aeth y Gwasanaeth at 330 o danau damweiniol mewn cartrefi, sydd 36 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol a sydd 3.9% yn uwch na'r cyfartaledd dros y dair blynedd flaenorol (317.7 o danau).

Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi: Cafodd 23 o bobl anafiadau yn y tanau hyn – roedd pump wedi'u categoreiddio'n anafiadau difrifol a 18 arall wedi'u categoreiddio'n fân anafiadau. Mae'r rhain yn eithrio'r bobl hynny a gynghorwyd i gael archwiliadau rhagofalus a'r rhai a gafodd gymorth cyntaf yn y fan a'r lle yn unig, gan gadw at y cyfarwyddyd cenedlaethol ar gyfer llunio dangosyddion perfformiad cenedlaethol.

Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi Bu tair marwolaeth mewn tân damweiniol mewn cartref, un yng Ngogledd Gwynedd (Ebrill 2016) a dwy farwolaeth yn yr un tân yng Nghonwy (Awst 2016), gan aros cadarnhad gan y Crwner am y cwbl.

Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ac Anafusion yn ôl Difrifoldeb yr Anaf



Ers Ebrill 2009 caiff anafusion anangheuol eu cofnodi dan bedwar categori difrifoldeb:

i) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn ddifrifol;
ii) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn fach;
iii) rhoddwyd cymorth cyntaf yn y fan a'r lle yn unig;
iv) argymhellwyd archwiliad rhagofalus – ystyr hyn yw y bydd unigolyn yn cael ei anfon i'r ysbyty neu'n cael ei gynghori i weld meddyg rhag ofn, ond pryd nad oes unrhyw anaf neu ddioddefaint amlwg.

Canran y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a ddihangodd yn ddianaf heb gymorth y gwasanaeth tân ac achub yn y tân

- **Bu i 88.7% *o'r bobl mewn tân damweiniol mewn cartref ddianc yn ddianaf a heb gymorth gan y criwiau a aeth at y tân. Mae hyn yn gynnydd o dros 16 pwynt canrannol o gymharu â 2015/16.***

Mae'r 88.7% eleni'n ymwneud â chyfanswm o 538 o bobl a adawodd y safle, roedd 477 ohonynt wedi gallu mynd allan o'r cartref yn ddiogel heb orfod cael eu hachub gan griw tân.

Gyda rhybudd cynnar gan larwm mwg sy'n gweithio, a chynllun dianc wedi ei ymarfer ac wedi ei deilwra i anghenion unigol preswylwyr y cartref, y gall pobl gael y siawns orau i ddianc yn ddianaf o dân mewn cartref heb orfod dibynnu ar gael eu hachub gan griw tân.

Tanau damweiniol mewn cartrefi – *cyfanswm y bobl*



Tabl i ddangos faint o bobl a fu mewn tanau damweiniol mewn cartrefi

Statws	**2011/12**	**2012/13**	**2013/14**	**2014/15**	**2015/16**	**2016/17**	**Cyfartaledd 3 bl.**
Marwolaeth	3	2	2	2	2	3	-
Anaf - difrifol	2	5	3	0	3	5	2.0
Anaf - bach	19	25	42	25	39	18	35.3
Cymorth Cyntaf	33	57	62	28	36	27	42.0
Archwiliad rhagofalus yn unig	44	34	41	35	49	43	41.7
Allan heb gymorth y GTA	432	429	554	448	261	434	421.0
Achub (heb anaf)	27	5	9	6	1	3	5.3
Allan gyda chymorth y GTA	56	28	33	24	36	5	31.0
Yr holl bobl a adawodd safleoedd	616	585	746	568	427	538	580.3

**Caiff 'Dianaf a heb gymorth criwiau yn y fan a'r lle' ei gyfrifo drwy adio'r categoriau 'Allan heb gymorth y GTA' ac 'Archwiliad rhagofalus yn unig', yna caiff ei fynegi fel canran o gyfanswm y bobl sy'n gadael y safle.*

Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb Larymau Mwg

- ***Roedd 14.1% o'r cartrefi a gafodd dân heb larwm mwg (50 o danau), sydd 0.7 pwyntiau canrannol yn is na thri chwarter cyntaf 2015/16.***

Bu 355 o danau mewn cartref yn ystod y cyfnod, 31 (9.6%) yn fwy na chyfanswm y flwyddyn flaenorol hyd yma sef 324 o danau, a 6 yn fwy na'r cyfartaledd 3 blynedd sef 349.0 o danau.

Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb larymau mwg (canran)



* ffigurau cyfartaledd 3 blynedd wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r data rhifiadol gwreiddiol yn hytrach na chanrannau

Mewn 61.7% o'r tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt (219 o danau), roedd larwm wedi ei osod ac wedi seinio. Mae hyn yn ostyngiad bychan o 0.3 pwyntiau canrannol o gymharu â'r un cyfnod yn 2015/16, ac yn ostyngiad o 0.1 pwynt canrannol ar y cyfartaledd 3 blynedd.

Mewn 24.2% o'r tanau mewn cartref yr aethpwyd atynt (86 o danau), roedd **larwm wedi ei osod ond heb seinio**. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 1.1 pwyntiau canrannol o gymharu â'r tri chwarter cyntaf yn y flwyddyn flaenorol, ac yn gynnydd o 1.0 pwynt canrannol o gymharu â'r cyfartaledd 3 blynedd. Y prif reswm pam nad oedd larymau wedi seinio er eu bod yn yr eiddo oedd y ffaith nad oedd y tân yn ddigon agos i'r larwm i beri iddo seinio, (dyma oedd y rheswm mewn 56 o danau).

Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb larymau mwg (nifer)



Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref (ADC)

- ***Cwblhawyd 27.4% o'r archwiliadau diogelwch yn y cartref yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner.***

Yn ystod y cyfnod roedd 4,229 (27.4%) o blith y 15,443 o archwiliadau diogelwch yn y cartref yn rhai a oedd yn deillio o atgyfeiriadau gan sefydliadau partner. Mae hyn ychydig yn is na tharged y Gwasanaeth, sef 30%.

% yr holl Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref a gynhaliwyd wedi deillio o atgyfeiriad gan sefydliad partner



*ffigurau cyfartaledd 3 blynedd wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r data rhifiadol gwreiddiol yn hytrach na chanrannau

ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU:
Crynodeb o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt

BLWYDDYN ADRODD 2016-17

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren**= dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni → = dim newid PC = pwyntiau canrannol

Categori	Blwyddyn	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Hyd yn hyn eleni		Cyfartaledd dros y tair blynedd blaenorol	
Cyfanswm y digwyddiadau a fynychwyd	2016/17	1,214	1,412	1,365		3,991	↑ 5.6%	4,547.7	↓ 12.2%
	2015/16	1,292	1,254	1,234		3,780			
Cyfanswm y tanau	2016/17	536	514	490		1,540	↓ 8.8%	1,806.3	↓ 14.7%
	2015/16	673	553	463		1,689			
Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig	2016/17	182	243	345		770	↑ 39.2%	564.0	↑ 36.5%
	2015/16	136	171	246		553			
Cyfanswm y galwadau diangen	2016/17	496	655	530		1,681	↑ 9.3%	2,177.3	↓ 22.8%
	2015/16	483	530	525		1,538			

Yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt:

- ***Bu cynnydd o 5.6% neu 211 yn fwy o ddigwyddiadau o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2015/16.***

Yn ystod y flwyddyn, aeth y Gwasanaeth at 3,991 o ddigwyddiadau, sydd yn fwy na'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, serch hynny mae'n parhau â'r tueddiad cyffredinol am i lawr.

Fe wnaeth cyfanswm y **digwyddiadau tân** ostwng 8.8% (149 yn llai o danau) o gymharu â'r un cyfnod yn 2015/16, a 14.7% o gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd blaenorol.

Fe wnaeth **y digwyddiadau galwadau arbennig** gynyddu 39.2% o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, a chynyddu 36.5% o gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol.

Roedd y **digwyddiadau galwadau diangen** hefyd wedi cynyddu, 9.3% yn fwy o gymharu â'r flwyddyn flaenorol 22.8% o ostyngiad o gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol.

Yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt, yn ôl math



ADRODD AM WEITHGARWCH DIGWYDDIADAU: Y tanau yr aethpwyd atynt

BLWYDDYN ADRODD 2016-17

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni → = dim newid PC = pwyntiau canrannol

Categori	Blwyddyn	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Hyd yn hyn eleni		Cyfartaledd dros 3 blynedd	
Cyfanswm tanau	2016-17	536	514	490		1,540	↓ 8.8%	1,806.3	↓ 14.7%
	2015-16	673	553	463		1,689			
Prif Danau	2016-17	254	296	288		838	↑ 2.8%	839.3	→ 0.2%
	2015-16	277	268	270		815			
Tanau eilaidd	2016-17	249	211	157		617	↓ 20.6 %	845.0	↓ 27.0%
	2015-16	356	268	153		777			
Tanau simnai	2016-17	33	7	45		85	↓ 12.4%	122	↓ 30.3%
	2015-16	40	17	40		97			
Yr holl danau bwriadol	2016-17	146	186	134		466	↓ 21.3%	627.7	↓ 25.8%
	2015-16	238	200	154		592			
Yr holl danau damweiniol	2016-17	390	328	356		1,074	↓ 2.1%	1178.7	↓ 8.9%
	2015-16	435	353	309		1,097			
Tanau mewn eiddo annomestig	2016-17	31	33	35		99	↓ 22.0%	107.7	↓ 8.1%
	2015-16	49	36	42		127			

Tanau:

- ***Bu gostyngiad o 8.8% neu 149 yn llai o danau o gymharu â'r un cyfnod yn 2015/16.***

Yn ystod y cyfnod fe aeth y Gwasanaeth at 1,540 o danau. Bu cynnydd o 2.8% mewn prif danau, 20.6% yn llai o danau eilaidd a gostyngiad o 12.4% yn nifer y tanau simnai o gymharu â'r tri chwarter cyntaf yn y flwyddyn flaenorol.

O gymharu â'r darlun tymor hir a'r cyfartaledd 3 blynedd, mae'r tuedd at i lawr (gwelliant) yn nifer yr achosion o danau y mae'r Gwasanaeth yn cael ei alw atynt yn parhau. Bu i'r tywydd gwlypach nag arfer yn 2012/13 arwain at nifer isel o danau'r flwyddyn honno.

Tanau: Math

Mae'r cynnydd yn nifer y **prif danau yn** hafal i 23 yn fwy o ddigwyddiadau o gymharu â'r un cyfnod yn 2015/16 a bron yn hafal â'r cyfartaledd 3 blynedd (839.3).

Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn bu gostyngiad yn nifer y **tanau eilaidd,** 20.6% neu 160 yn llai o ddigwyddiadau o gymharu â'r un cyfnod yn 2015/16, a 27.0% yn is na chyfartaledd y 3 blynedd blaenorol.

Bu gostyngiad yn nifer y **tanau simnai**, 12.4% (12 yn llai o danau) o gymharu â'r un cyfnod yn 2015/16 yn ogystal â gostyngiad o 30.3% o gymharu â'r cyfartaledd 3 blynedd.

Yr holl danau yr aethpwyd atynt, yn ôl math



Tanau: Cymhelliad

Adlewyrchir y gostyngiad mewn tanau yn ystod tri chwarter cyntaf 2016/17 o gymharu â 2015/16 yn nifer y tanau damweiniol a bwriadol, bu gostyngiad o 2.1% a 21.3% fel ei gilydd. Mae tanau damweiniol a bwriadol yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

Yr holl danau yr aethpwyd atynt, yn ôl cymhelliad



Tanau: Safleoedd annomestig:

Bu gostyngiad o 22% neu 28 tân yn llai mewn safleoedd annomestig o gymharu â'r un cyfnod yn 2015/16.

Yn ystod tri chwarter cyntaf 2016/17 fe aeth y Gwasanaeth at 99 o danau o'r fath, 28 yn llai na'r flwyddyn flaenorol a 8.1% yn llai o gymharu â'r cyfartaledd 3 blynedd.

Tanau ar Safleoedd Annomestig ac Anafusion oherwydd tanau mewn safleoedd annomestig



ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU:
Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (nid tanau) yr aethpwyd atynt

BLWYDDYN ADRODD 2016-17

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni → = dim newid PC = pwyntiau canrannol

Categori	Blwyddyn	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Hyd Yn hyn eleni		Cyfartaledd dros y 3 blynedd blaenorol	
Cyfanswm digwyddiadau gwasanaeth arbennig	2016-17	182	243	345		770	↑ 39.2%	564.0	↑ 36.5%
	2015-16	136	171	246		553			
Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd	2016-17	47	59	52		158	→ 1.3 %	208.0	↓ 24.0%
	2015-16	40	64	56		160			
Heblaw gwrthdrawiadau ar y ffyrdd	2016-17	135	184	293		612	↑ 55.7%	356.0	↑ 71.9%
	2015-16	96	107	190		393			

Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig:

- ***Bu cynnydd o 39.2% neu 217 yn fwy o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig o gymharu â'r un cyfnod yn 2015/16.***

Yn ystod tri chwarter cyntaf 2016/17 aeth y Gwasanaeth at 770 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig, sy'n fwy na'r flwyddyn flaenorol ac yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd.

Bu mymryn o ostyngiad yn nifer y **gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd** yr aethpwyd atynt o gymharu â'r un cyfnod yn 2015/16, a bu gostyngiad o gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd gan barhau â'r tuedd am i lawr dros y tymor canolig.

Fe wnaeth nifer y digwyddiadau galwadau arbennig **heblaw am wrthdrawiadau ar y ffyrdd** gynyddu, gyda 55.7% neu 219 yn fwy o ddigwyddiadau o gymharu â'r yn cyfnod yn 2015/16, a mwy na'r cyfartaledd 3 blynedd.

Yn ystod 2012/13 er bod y tywydd gwlypach na'r arfer wedi arwain at lai o danau, fe wnaeth y digwyddiadau gwasanaeth arbennig gynyddu, fel gwrthgyferbyniad, oherwydd y tywydd.

Fe wnaeth nifer y llifogydd ym mis Mehefin 2016, effaith y cynllun treialu cyd-ymateb a'r Tîm Cynorthwyo Cymunedol chwyddo nifer y **digwyddiadau gwasanaethau arbennig nad ydynt yn wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd** ar gyfer2016/17.

Gwasanaethau Arbennig yr aethpwyd atynt, yn ôl math



ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU: Mynd at alwadau diangen

BLWYDDYN ADRODD 2016-17

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni → = dim newid PC = pwyntiau canrannol

Categori	Blwyddyn	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Hyd yn hyn eleni		Cyfartaledd dros y 3 blynedd diwethaf	
Cyfanswm y galwadau diangen	2016-17	496	655	530		1,681	↑ 9.3%	2,177.3	↓ 22.8%
	2015-16	483	530	525		1,538			
Galwadau diangen maleisus	2016-17	11	10	21		42	↑ 23.5%	50.7	↓ 17.2%
	2015-16	11	11	12		34			
Galwadau diangen didwyll	2016-17	212	269	238		719	↓ 5.4%	877.0	↓ 18.0%
	2015-16	234	257	269		760			
Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo annomestig	2016-17	72	117	93		282	↑ 33.0%	712.0	↓ 60.4%
	2015-16	58	92	62		212			
Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo arall	2016-17	201	259	178		638	↑ 19.9%	537.7	↑ 18.7%
	2015-16	180	170	182		532			

Galwadau diangen:

- ***Bu cynnydd o 9.3% neu 143 yn fwy o alwadau diangen aethpwyd atynt o gymharu â'r un cyfnod yn 2015/16.***

Yn ystod tri chwarter cyntaf 2016/17 aeth y Gwasanaeth allan at 1,681 o alwadau am gymorth a drodd i fod yn alwadau diangen. Mae'r nifer hwn yn gynnydd o 9.3% o gymharu â'r tri chwarter cyntaf yn 2015/16.

O gymharu â'r darlun yn y tymor hir a'r cyfartaledd 3 blynedd, cafwyd parhad yn y tueddiad cyffredinol am y lawr (gwelliant) yn nifer y digwyddiadau galwadau diangen yr aiff y Gwasanaeth atynt. Yn arbennig, mae nifer y galwadau diangen awtomatig mewn eiddo annomestig wedi gostwng 60.4% o gymharu â'r cyfartaledd 3 blynedd. Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i newid gweithdrefn.

Ers 1 Ebrill 2015 mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu newid yn y weithdrefn ar gyfer Galwadau Diangen Awtomatig gan ddefnyddio protocolau Presenoldeb Rhagnodedig.

Galwadau diangen yr aethpwyd atynt, yn ôl math



Geirfa

Tanau	Mae pob tân i'w osod yn o'r tri chategori canlynol – prif, eilaidd neu simnai.
Prif danau	Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau, ac sydd yn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb. Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt.
Tanau eilaidd	Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai na phrif danau. Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb
Tanau simnai	Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun. Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.
Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig	Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys: a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb; b) Trychinebau mawr; c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb; d) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau.
Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol)	Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli. Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch.
Galwadau diangen – Maleisus	Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus.
Galwadau diangen – Didwyll	Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig.
Galwadau diangen – systemau awtomatig	Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad).